# Swyddi Adran Cefnogaeth Corfforaethol

## Pecyn Gwybodaeth





CYNGOR GWYNEDD


www.gwynedd.llyw.cymru

# Ydych chi...



- Am gyfrannu i gyflogwr sy'n gwneud gwahaniaeth i fywydau?
- Yn chwilio am gyfle i ddysgu am wahanol feysydd gwaith y Cyngor?
- Yn dymuno gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg?
- Yn berson brwdfrydig a phositif?
- Yn awyddus i weithio fel rhan o dîm?
- Yn meddu ar sgilau pobl da?

## Os mai ‘yndw’ yw eich ateb i’r pwyntiau uchod, beth am ddod i weithio gyda ni?



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Gwaith yr Adran | 4 |
| Gwaith y Cyngor | 6 |
| Datblygu eich Gyrfa | 7 |
| Buddion o weithio i ni | 10 |
| Llwyddiannau yr Adran | 14 |
| Mwy o Wybodaeth | 16 |




# Gwaith yr Adran

**Mae'r adran yn helpu'r Cyngor i roi'r gorau i drigolion Gwynedd trwy gyfuniad o wasanaethau cefnogol, arbenigol a rheng-flaen.**

Mae gwaith yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn eang iawn ac yn cynnwys nifer o feysydd a phrosiectau diddorol gan gynnwys:

## Caffael

**Cadw'r budd yn lleol, rheolaeth categori, e-gaffael.**

## Cyswllt Cwsmer a Chofrestru

**Canolfan gyswllt galw gwynedd, siopau gwynedd, gwasanaeth cofrestru.**

## Cyfathrebu ac Ymgysylltu

**Ymdrin â'r wasg, cyfathrebu mewnol, gwefan y cyngor, ymgysylltu, cyfryngau cymdeithasol.**

## Democratiaeth ac Iaith

**Cefnogaeth i Gynghorwyr, gweinyddu pwyllgorau, craffu, Menter Iaith Gwynedd, Strategaeth Iaith, cyfieithu.**

## Dysgu a Datblygu'r Sefydliad

**Prentisiaethau, hyfforddiant i aelodau a staff, gwasanaeth cymell a mentora, buddiannau staff, newid ymddygiad, cefnogi diwylliant, cwynion corfforaethol.**

## Gwasanaeth Cefnogol

**Gweinyddiaeth penodiadau, archebu nwyddau, argraffu, talu biliau, dosbarthu post**

## Gwasanaeth Ymgynghorol Adnoddau Dynol

**Amodau gwaith, cyflog cyfartal, cyngor ar absenoldebau, disgyblu a chwynion, recriwtio pobl**

## Gwasanaeth Ymgynghorol Iechyd, Diogelwch a Llesiant

**Iechyd a diogelwch, iechyd galwedigaethol, symud a thrin.**

## Ymchwil a Gwybodaeth

**Ymchwil, dadansoddi data, rheoli gwybodaeth, diogelu data, rhyddid gwybodaeth**

“Rydym yn gyfrifol am roi cefnogaeth i holl adrannau’r Cyngor, ac mae hynny’n golygu fod yna gyfle i wneud gwahaniaeth yma, gydag amrywiaeth fawr o dimau yn cydweithio a’i gilydd ar nifer o brosiectau diddorol.

Mae’r Adran yn rhoi cyfleoedd datblygol gwych i’n staff, yn brofiadau newydd, ennill cymhwysterau neu’n raglenni datblygu potensial, ac mae hyn wedi’i gydnabod dros y blynyddoedd gan sefydliad Buddsoddwyr Mewn Pobl. Mae edrych ar ôl iechyd a lles ein staff yn holl bwysig i hyn i gyd ac rydan ni’n annog trefniadau gweithio’n hyblyg pan fo hynny’n bosib hefyd. Beth am ymuno â ni felly?”



**Ian Jones,**
Pennaeth Adran Cefnogaeth Gorfforaethol.

# Gwaith y Cyngor


Mae Cyngor Gwynedd yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau ar draws ein Sir gan gynnwys addysgu ein plant, gofalu am ein pobl, glanhau ein strydoedd, edrych ar ôl ein llesiant a hybu ein busnesau lleol i lwyddo.



Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr




Y prif beth sy'n ein galluogi ni fel Cyngor i wneud hyn yw'r staff sy'n gweithio yma. Mae'r Cyngor yn llawn pobl sydd wedi dewis gweithio yma oherwydd eu bod eisiau helpu pobl Gwynedd a gwneud gwahaniaeth i'r cymunedau a'r amgylchedd yr ydym yn byw ynddynt.



# Datblygu eich gyrfa


Mae datblygiad ein staff yma yn Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn holl bwysig. Mae amryw o gyfleon ar gael oddi fewn yr Adran bo hynny i ddatblygu sgil penodol, magu profiadau o fewn swydd neu newid cyfeiriad i faes gwaith gwahanol.

## Dysgu a datblygu sgiliau newydd

- Sesiwn Croeso ac Anwytho
- Sgyrsiau rheolaidd gyda'ch rheolwr llinell
- Rhaglen hyfforddi cynhwysfawr (wyneb i wyneb a rhithiol)
- Gwerthuso parhaol
- Cyfleon i gysgodi eraill

## Datblygu eich potensial

- Rhaglen 'Datblygu Potensial' Adrannol – Adnabod talent a chynllunio gweithlu
- Rhaglen 'Merched Mewn Arweinyddiaeth' - Cymorth i ferched gamu ymlaen yn eu gyrfa
- Cyfleon i gael cefnogaeth gan Fentor/Cymhellwr ('Coach') profiadol
- Cyfle i ennill cymwysterau drwy eich gwaith
- Cyfleon secondiadau mewnol amrywiol



## Gweithio fel tîm

- Cefnogaeth wedi ei deilwro i anghenion timau unigol.
- Hyfforddiant 'DiSC' i adlewyrchu ar steil gweithio unigol a sut fyddai hyn o fudd wrth weithio fel tîm

## Eich llais chi

- Cyfle i rannu eich barn drwy; Sgyrsiau 1:1 gyda rheolwr llinell, Cyfarfodydd tîm rheolaidd, Cyfarfodydd adran, Gweithdai traws-adrannol ar wahanol bynciau, Cyfle i drefnu a chynnal digwyddiadau, Cyfle i fynychu cynadleddau amrywiol a chynrychioli'r Adran.

“Mae’r cyfleoedd datblygu mae’r Adran wedi’i roi i mi yn amhrisiadwy.  Yn fy rôl fel Swyddog Adnoddau Dynol dwi wedi cwblhau cwrs Diploma Lefel 5 mewn Adnoddau Dynol Cymhwysol trwy fy ngwaith ac mae hwn wedi fy helpu yn arw efo’r gwaith. Hefyd, yn ddiweddar cefais fy newis i fod ar y Rhaglen Datblygu Potensial ac (heb ddiflasu ar ddysgu) rwyf bellach yn y broses o gwblhau cymhwyster ILM Lefel 5 Arwain a Rheoli trwy fy ngwaith”



Bethan Wynne Davies, Swyddog Adnoddau Dynol.

“Byddwn yn awgrymu i unrhyw un fachu ar y cyfle i ymuno â’r Adran – fyddwch chi ddim yn difaru! Ers dechrau yma fel Swyddog Cefnogi Ymgysylltu o fewn y Tîm Cyfathrebu ac Ymgysylltu, dwi wedi mynd ymlaen i gael cyfleoedd secondiad a bellach wedi derbyn swydd barhaol fel Swyddog Gweithredol. Mae rheolwyr yr Adran wedi bod mor gefnogol wrth roi sylw i fy natblygiad personol ac yn rhoi cyfleon i mi drio pethau newydd a datblygu fy hyder.”




Lois Angharad Owens, Swyddog Gweithredol.

# Cofiwch!

Mae gan yr adran Gronfa Hyfforddiant Adrannol ac rydym yn eich annog i gyflwyno cais.

Ar gael i gefnogi unigolion i fynychu hyfforddiant a chyrsiau arbennigol / datblygu sgiliau.



# Buddion o weithio i ni

Yn ogystal a boddhad swydd a chyfle i wneud cyfraniad gwerthfawr, mae'r Cyngor yn awyddus i chi gael y gwerth mwyaf o fod yn aelod o staff y Cyngor. Oherwydd hyn ceir mynediad i amrediad o fuddiannau, gan gynnwys rhai o'r isod:


*Gall rhai buddion gweithwyr fod yn wahanol yn dibynnu ar y rôl.

## CYDBWYSEDD BYWYD A GWAITH

- Cynllun gweithio oriau hyblyg (ble mae'r swydd yn caniatau hynny), gan gynnwys opsiynau megis; oriau ystwyth (fflecsi), gweithio'n hybrid neu o adref, oriau cywasgedig, cynllun rhannu swydd, gweithio tymor ysgol, oriau blynyddol, rhan amser neu achlysurol.

- Hawl i rhwng 21 a 30 diwrnod o wyliau'r flwyddyn yn ddibynnol ar raddfa'r swydd a hyd gwasasanaeth. Yn ogystal, mae gan weithwyr hawl i 8 diwrnod o wyliau banc / gwyliau cyhoeddus a 3 1/2 diwrnod ychwanegol.

- Absenoldeb gyda thâl mewn amryw o amgylchiadau arbennig, e.e. profedigaeth, apwyntiadau meddygol, ymgymryd â dyletswyddau cyhoeddus.



# DYSGU A DATBLYGU

- Mae Cyngor Gwynedd yn gweld gwerth uchel mewn buddsoddi yn ei adnodd pwysicaf sef ei weithwyr. Gall pob gweithiwr ddisgwyl:
- Proses anwytho ffurfiol ac adolygiadau perfformiad parhaus
- Ystod eang o gyfleodd i fynychu hyfforddiant a datblygu mewnol ac allanol
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith.
- Cynlluniau penodol llwybrau gyrfa e.e. Prentisiaethau a Chynllun Yfory.

# IECHYD A LLES

- Mae iechyd a lles ein staff yn flaenoriaeth gennym. Rydym yn ceisio creu amgylchedd gwaith positif ble mae staff yn ffynnu. Dyma rai enghreifftiau o'r gefnogaeth fyddai ar gael i chi:
- Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol
- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol i swyddogion y Cyngor
- Profion llygaid am ddim, i swyddogion sy'n gwneud defnydd rheolaidd o Sgriniau Arddangos Gweledol (VDU's)



# PENSIWN

- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol sydd yn cynnig rhai o'r telerau gorau yn y wlad.




# YR IAITH GYMRAEG

- Cyfle i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws pob swydd, sector ac ardal o fewn y Sir.
- Drwy ymuno â ni, mae yna gyfleoedd i chi ddatblygu eich sgiliau ieithyddol gyda hyfforddiant yn cael ei gynnig i ddysgu'r Iaith Gymraeg waeth beth yw eich gallu.

# BUDDION ERAILL

- Mae'r Cyngor yn cynnig amrywiaeth eang o fuddion fydd yn hybu eich iechyd ac yn arbed arian i chi gan gynnwys;
- Manteisio ar gynllun Budd i Bawb - cynllun buddiannau staff gan gynnwys disgownts siopau lleol a chenedlaethol
- Cymorth i Deuluoedd - Cymorth gwych i rieni a gofalwyr gan gynnwys gwell tâl mamolaeth, tâl mabwysiadu a thâl tadolaeth, talebau gofal plant ac arferion gweithio hyblyg.
- Aelodaeth canolfannau hamdden - Aelodaeth gostyngol i Ganolfannau Hamdden Byw'n Iach.
- Beicio i'r Gwaith - Mae'r cynllun Beicio i'r Gwaith yn caniatáu i rai gweithwyr brynu beic trwy aberthu cyflog. Mae hyn yn arbed arian iddynt yn ogystal ag hyrwyddo eu hiechyd.
- Meddalwedd TG a Ffonau Symudol - Mae gan weithiwr fynediad at bris gostyngol ar gontractau ffôn symudol, e.e. Vodaphone ac EE ac hefyd ar feddalwedd Microsoft Office.
- A llawer mwy...



# Llwyddiannau’r Adran



“Balchder mawr ac yn fraint cael derbyn y wobr ar ran pawb o fewn ein timau, sy’n gweithio’n galed iawn i sicrhau fod anghenion pobl Gwynedd, o ran darpariaeth yn y Gymraeg, yn cael ei wireddu.”

Joanne Parry, Rheolwr Gwasanaeth Cyswllt Cwsmer a Chofrestru ac ennil Gwobr Goffa Dafydd Orwig

“Mae wedi bod yn brofiad anhygoel a dwi’n hynod ddiolchgar.”

Delyth Jones, Gwasanaeth Cefnogol yn ennill gwobr Prentis y Flwyddyn yng Nghwobrau Coleg Cymraeg Cenedlaethol 2022.





Y Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol yn cyrraedd yn trio olaf / rhestr fer Gwobr Gwerth Gorau yn Seremoni Cyngor ar ei Orau.

## Achrediad Safon Aur - Cymru Iach ar Waith (2023)

Mae'r Cyngor wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol am y ffordd mae'n edrych ar ôl llesiant staff, gyda thîm Iechyd, Diogelwch a Llesiant yr Adran wrth y llyw yn gweud gwaith allweddol i sicrhau ein bod wedi dal ein gafael ar y Safon Aur eto eleni.  Mae rhaglen 'Cymru Iach ar Waith' yn strwythur genedlaethol gynhelir gan Lywodraeth Cymru er mwyn hyrwyddo a gwella iechyd a lles yn y gweithle. Mae'r cydnabyddiaeth hwn yn cadarnhau enw da'r Cyngor fel cyflogwr wrth helpu i sicrhau fod gwasanaethau allweddol ar gael i bobl sy'n dibynnu arnynt ym mhob rhan o'r Sir.




## Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn cynnal Achrediad Safon Arian gyda Buddsoddwyr Mewn Pobl (2023)

Mae'r Adran yn ymfalchïo o fod wedi cynnal Achrediad Safon Arian gyda Buddsoddwyr Mewn Pobl eto eleni. Golygai hyn bod safonau yr Adran yn uwch na'r cyfartaledd yn y sector gyhoeddus yng Nghymru a Lloegr gyda staff yn datgan lefel uchel o foddhad yn eu gwaith ac ymdeimlad o 'dîm'.

Rydych wedi llwyddo!
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Silver

# Mwy o wybodaeth

Os hoffech fwy o wybodaeth ynglŷn â chynnwys y pecyn hwn, cysylltwch â:

CefnogaethGorfforaethol@gwynedd.llyw.cymru

- Gwybodaeth am swyddi Adran Cefnogaeth Gorfforaethol
- Gwybodaeth am holl swyddi y Cyngor
- Gwybodaeth ynghylch sut i wneud cais

